# Polisi Amddiffyn Plant

# Mehefin 2019

I’w gymeradwyo gan y Llywodraethwyr Mehefin 2019

I’w diweddaru erbyn Mehefin 2021

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL YN YR YSGOL

**UWCH BERSON DYNODEDIG AR GYFER AMDDIFFYN PLANT (UBD)**
ENW: CATRIN PALLOT
RHIF CYSWLLT: 02920 405499

**DIRPRWY UBD**
ENW: PAUL HARRIS, HELEN STIFF A RUTH DAVIES
RHIF CYSWLLT: 02920 405499

**LLYWODRAETHWR ENWEBEDIG AR GYFER AMDDIFFYN PLANT**
ENW:
RHIF CYSWLLT:

**CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**
ENW: CATRIN REDKNAPP
RHIF CYSWLLT:

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL YN YR AWDURDOD LLEOL

**ATGYFEIRIAD AT WASANAETHAU PLANT YN HYB DIOGELU AMLASIANTAETHOL CARDYDD (MASH)**

Pan fydd gan ysgolion bryderon **BRYS** ac **AR UNWAITH** dros ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc yn ystod oriau swyddfa, ffoniwch: **029 2053 6490**

Ar gyfer achosion sy'n agored i Wasanaethau Plant ac sydd â gweithiwr cymdeithasol dynodedig, ffoniwch **029 20 563400**

Cynrychiolwyr Addysg yn MASH (gweithwyr proffesiynol yn unig) **029 20338438**

I wneud atgyfeiriadau **BRYS** y **TU ALLAN I ORIAU SWYDDFA**, ffoniwch **029 20788 570**

**HEDDLU (AMDDIFFYN PLANT): 999 (mewn argyfwng) 029 20222 111**

Gall y **TÎM DIOGELU ADDYSG** roi cyngor a chymorth.

**RHIFAU CYSWLLT: 029 223 30876,029 223 30877, 029 223 30878.**

**E-BOST: SLLSSafeguardingTeamInformation@caerdydd.gov.uk**
**Finn Madell, Person Dynodedig yr Awdurdod Lleol (PDALl)**
**RHIF CYSWLLT: 02922 330868**

**CYDLYNYDD PREVENT**

**Carl Davies – Cydlynydd Prevent y Swyddfa Gartref**

Rheolwr Gweithredol

Awdurdod Lleol Caerdydd

Ffôn: 02920 873281 Ffôn symudol: E-bost: carl.davies@caerdydd.gov.uk

**Jennifer Lenczner – Swyddog Addysg Prevent y Swyddfa Gartref**

Awdurdod Lleol Caerdydd

Ffôn: 02920 873281 Ffôn symudol: 07811 980031

*E-bost:* Jennifer.Lenczner@caerdydd.gov.uk

**MYNEGAI**

| | | |
|---|---|---|
| CYFLWYNIAD | Tudalen | 6 |
| NOD | Tudalen | 7 |
| ATAL | Tudalen | 7 |
| GWEITHDREFNAU | Tudalen | 8 |
| HYFFORDDIANT | Tudalen | 9 |
| ADNABOD CAM-DRIN PLANT | Tudalen | 9 |
| GWEITHREDU | Tudalen | 11 |
| YMDRIN Â DATGELIADAU | Tudalen | 12 |
| PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT A GRWPIAU CRAIDD | Tudalen | 14 |
| CADW COFNODION | Tudalen | 14 |
| CYFRINACHEDD | Tudalen | 15 |
| CEFNOGAETH AR GYFER DISGYBLION | Tudalen | 16 |
| AGORED I NIWED YCHWANEGOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC | Tudalen | 16 |
| ATAL POBL ANADDAS RHAG GWEITHIO GYDA PHLANT | Tudalen | 16 |
| HONIADAU YN ERBYN STAFF MEWN LLEOLIAD YSGOL | Tudalen | 17 |
| CHWYTHU'R CHWIBAN | Tudalen | 19 |
| POLISÏAU CYSYLLTIEDIG ERAILL | Tudalen | 19 |
| ORIAU ESTYNEDIG AC ORIAU Y TU ALLAN I'R YSGOL | Tudalen | 24 |

**ATODIAD / DOGFENNAU**

| | | |
|---|---|---|
| COFNOD PRYDERON | Tudalen | 25 |
| LOG COFNODION AMDDIFFYN PLANT | Tudalen | 26 |
| LOG CONTRACTWYR DYDDIOL | Tudalen | 27 |
| AGORED I NIWED A RISGIAU O GAMFANTEISIO RHYWIOL | Tudalen | 28 |
| PLANT SY'N COLLI ADDYSG | Tudalen | 29 |
| RHESTR O DDOGFENNAU ATEGOL | Tudalen | 36 |





Diagram Gwe Diogelu

Nid yw'n rhestr gynhwysfawr

**Cafodd y canllaw hwn ei lunio er mwyn helpu Ysgolion i ysgrifennu eu polisi amddiffyn plant penodol eu hunain ac i ddwyn ger bron a mabwysiadau'r canllaw gweithdrefnau arfer gorau yn yr ysgol.**

**Canllaw Arfer Gorau – Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer yr Ysgol**

## Cyflwyniad

"Rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, boed fel rhiant, aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, cyflogwr neu fel gweithiwr cyflogedig neu wirfoddol. Gall pob aelod o'r gymuned helpu i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a dylent weithredu i wneud hynny os bydd pryderon ganddynt dros les plentyn" Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"

- Rydym ni ym Mhlasmawr yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl o safbwynt lles pobl ifanc, a thrwy ethos cyffredinol yr ysgol, byddwn yn ceisio annog plant sydd ag angen cymorth i ddod ymlaen.

- Rydym ni ym Mhlasmawr wedi ymrwymo i sicrhau diogelu ac amddiffyn pob plentyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu eu llesiant a chydnabod bod gan blant hawl i gael eu hamddiffyn.

- Byddwn ni ym Mhlasmawr yn gweithio gyda phartneriaid aml-ddisgyblaeth o fewn y fframwaith statudol a sefydlwyd gan:

    - Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
    - Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 Adran 28
    - Deddf Addysg 2002 Adran 175 – mae dyletswydd statudol ar ysgolion i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant
    - Gweithdrefnau Honiadau Cam-drin Proffesiynol (AWCPP Rhan IV)
    - Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/2015
    - Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
    - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
    - Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg

Mae'r polisi amddiffyn plant yn berthnasol i bob aelod o staff o gwirfoddolwyr Ysgol Plasmawr gan gynnwys staff addysg gymunedol a llywodraethwyr. Gall cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr canol dydd, staff cyflenwi, staff gweinyddol a chefnogi yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt diogelu cyntaf i blentyn. Gall rhieni pryderus hefyd gysylltu â'r ysgol neu'r llywodraethwyr. Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan ystyried adborth gan Gyrff Llywodraethu ac ysgolion ac unrhyw ddogfennaeth polisi neu arweiniad.

## Nod

Rydym ni ym Mhlasmawr yn anelu darparu amgylchedd lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n saff, yn ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ac yn hyderus, a'u bod yn gwybod sut i fynd at oedolion os byddant yn wynebu trafferthion, gan gredu y gwrandewir yn effeithiol arnynt.

Mae 4 prif elfen i'n polisi wrth weithredu'r nod uchod:

1. **Atal** trwy'r cymorth addysgu a bugeiliol a gynigir i ddisgyblion a chreu a chynnal a chadw amgylchedd diogel ysgol gyfan lle mae plant yn gwybod at bwy i fynd gydag unrhyw bryderon ynglŷn â'u lles.

2. **Gweithdrefnau** ar gyfer nodi ac adrodd pryderon am les plentyn.

3. **Cymorth i Ddisgyblion** sydd wedi / neu o bosib wedi eu cam-drin

4. **Atal Pobl Anaddas Rhag Gweithio Gyda Phlant** trwy brosesau archwilio cefndir a recriwtio cadarn.

## 1. Atal

Rydym ni ym Mhlasmawr yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyswllt da gydag oedolyn yr ymddiriedant ynddo yn helpu i amddiffyn plant.

Bydd yr ysgol felly yn:

- Sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad, ac y gwrandewir arnynt.

- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os bydd pryderon ganddynt am eu lles, os byddant yn poeni neu mewn trafferth

- Cynnwys yn y cwricwlwm weithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin a gwybodaeth ynghylch pwy i droi ato i gael cymorth;

- Cynnwys yn y cwricwlwm ddeunydd a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd oedolion yn enwedig ynglŷn â gofal plant a sgiliau rhianta.

- Sicrhau, lle bynnag y bo modd, y gwneir pob ymdrech i sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhieni a chydweithwyr mewn asiantaethau partner.

## 2. Gweithdrefnau

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 newydd.

### i) Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Mae Amddiffyn Plant yn fater i bawb; fodd bynnag bydd gan staff yn Ysgol Plasmawr gyfrifoldebau penodol, a amlinellir isod.

- Rôl yr Uwch Berson a Ddynodir ar gyfer Amddiffyn Plant (UBD) yw sicrhau y dilynir yr holl weithdrefnau amddiffyn plant yn yr ysgol, a gwneud atgyfeiriadau priodol ac amserol yn unol â gweithdrefnau'r ysgol.
- Os, am unrhyw reswm nad yw'r UBD ar gael, nodwyd **Dirprwy UBD** a fydd yn gweithredu yn ei absenoldeb. Caiff trefniadau amgen ar gyfer staff cyflenwi priodol eu gwneud hefyd os na fydd yr UBD na'r dirprwy ar gael.
- Rôl yr UBD yw sicrhau bod yr holl staff a gyflogir, gan gynnwys staff dros dro, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr yn yr ysgol yn ymwybodol o weithdrefnau mewnol yr ysgol, ar gyfer cyngor, cymorth ac arweiniad.
- Mae'r Corff Llywodraethu a thîm arwain yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn dilyn prosesau recriwtio diogel.
- Rôl y Llywodraethwr Enwebedig Ar Gyfer Amddiffyn Plant yw sicrhau bod gan yr ysgol bolisi effeithiol ac i gefnogi'r ysgol yn hyn o beth.
- Dylai'r UBD/Pennaeth a'r Corff Llywodraethu adolygu a diweddaru'r polisi a'r gweithdrefnau'n flynyddol.
- Dylai'r UBD/Pennaeth sicrhau bod yr holl staff, gwirfoddolwyr a'r llywodraethwyr yn ymgymryd â hyfforddiant Amddiffyn Plant yn flynyddol.
- Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r polisi amddiffyn plant sy'n eu hysbysu o'r ffaith y gallai atgyfeiriadau gael eu gwneud, a rôl y sefydliad.

- Os bydd plant yn gadael yr ysgol, sicrhau bod eu ffeil amddiffyn plant yn cael ei chopïo ac y trosglwyddir y copi'n ddiogel i'r sefydliad newydd cyn gynted ag y bo modd ond ar wahân i brif ffeil y disgybl. Dylid cadw'r ffeil wreiddiol yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae cynrychiolwyr o'r Tîm Diogelu (Ffôn: 029 223 30876 029 223 30877, 029 223 30878) ar gael i gynnig cyngor, cymorth a hyfforddiant i UBD yr ysgol.

### ii) Hyfforddiant

Dylai'r holl staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, staff gweinyddol, staff y gegin a Llywodraethwyr yn yr ysgol fod wedi cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flynyddol.

Mae hyfforddiant Amddiffyn Plant yn yn galluogi staff i;
- Ddeall yr Agenda Diogelu ar gyfer ysgolion a lle Amddiffyn Plant ynddo.
- Deall rolau a chyfrifoldebau allweddol mewn ysgolion ac ar gyfer ysgolion

- Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin
- Gwybod sut i ymateb i ddatgeliad o gam-drin a sut i wneud atgyfeiriad
- Codi pryderon yn erbyn gweithwyr proffesiynol

Mae'r ysgol yn gweithredu proses sefydlu gadarn ar gyfer unrhyw staff newydd, staff cyflenwi a thros dro a gwirfoddolwyr mewn perthynas â threfniadau amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau. Rhoddir llyfryn sefydlu a chopi o'r polisi amddiffyn plant i bob dechreuwr newydd.

Hefyd dylai'r UBD a'r Dirprwy UBD fynd i'r hyfforddiant priodol i'r lefel sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â rôl yr UBD bob tair blynedd.
Ar ôl yr hyfforddiant hwn dylai'r aelod staff dynodedig fodloni unrhyw safonau hyfforddiant eraill a amlinellir gan Gyngor Caerdydd.

## iii) Adnabod Cam-Drin Plant

Mae athrawon ac oedolion eraill mewn ysgolion mewn sefyllfa arbennig o dda i ganfod arwyddion o gam-drin plant. Mae'n bwysig felly, bod unrhyw achos o gam-drin a amheuir yn cael ei gymryd o ddifrif a bod system gyfathrebu glir o fewn ysgolion, rhwng ysgolion a Diogelu Addysg a rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Plant a'r Heddlu.

Mae'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn nodi pedwar categori o gam-drin:

- **Esgeulustod**
- **Anaf Corfforol**
- **Cam-drin Rhywiol**
- **Cam-drin Emosiynol**

**Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso**

Mae Deddf Plant 1989 a 2004 a RHAN 1 1.1 hyd 1.1.4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn diffinio cam-drin fel a ganlyn;

*'Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn ei niweidio, neu'n methu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu, sefydliad neu leoliad yn y gymuned, gan y sawl y maent yn eu hadnabod neu, yn fwy prin, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef cam-drin neu esgeulustod a bod ag angen ei amddiffyn trwy gynllun amddiffyn plant rhyng-asiantaethol'*

- **Cam-drin Corfforol**

  Gall gynnwys bwrw, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi neu fogi neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achos pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n peri salwch mewn plentyn y mae'n gofalu amdano.

- **Cam-drin Rhywiol**

  Gorfodi neu ddenu plentyn / person ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, boed ei fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gall gynnwys cysylltiad corfforol, gan gynnwys gweithredoedd sy'n dreiddiol neu heb fod yn dreiddiol; gweithgarwch heb gysylltiad, megis cynnwys plant i edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgarwch rhywiol; neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

- **Esgeulustod**

  Esgeulustod yw methu yn barhaus â bodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at niweidio'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Mae'n bosibl y bydd yn cynnwys rhiant neu ofalwr yn methu darparu bwyd, cysgod a dillad digonol, yn methu amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol neu yn methu sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth briodol. Gallai hefyd gynnwys esgeuluso neu methu ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

- **Cam-drin Emosiynol**

  Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus fel ei fod yn achosi effeithiau niweidiol parhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddi-werth neu bod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol, neu ond yn cael ei werthfawrogi gyhyd â'i fod yn bodloni anghenion person arall. Mae'n bosibl y bydd yn golygu gosod disgwyliadau sy'n amhriodol o ran oedran a datblygiad ar blant. Mae'n bosibl y bydd yn golygu peri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl, er enghraifft gweld cam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu eu hecsbloetio neu lygru plant.

  Mai rhyw lefel ar gam-drin emosiynol yn rhan o bob math o drin plentyn yn wael, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

## iv) Gweithredu a Gwneud Atgyfeiriad

Mae'n bosibl y tynnir eich sylw at gam-drin neu amheuaeth o gam-drin o ganlyniad i:

- Datgeliad (ysgrifenedig neu ar lafar)
- Gweld cleisiau/llosgiadau ayyb. pan nad yw'r esboniad a roddwyd yn gredadwy
- Mae'n bosibl y bydd disgybl arall/rhiant yn rhoi gwybodaeth i chi
- Mae'n bosibl y byddwch yn gweld newidiadau o ran ymddygiad sy'n peri pryder
- Mae'n bosibl y byddwch yn teimlo'n reddfol bod rhywbeth o'i le
- Mae problemau gydag esgeuluso, fel yr amlinellir yn yr adran uchod

Pan fydd gan aelod o staff bryderon am les plentyn dylai adrodd am ei bryderon **ar unwaith** i'r UBD (neu'r dirprwy UBD) a fydd yn ystyried y pryder yn briodol a pha gamau gweithredu, os unrhyw beth, y dylid eu cymryd.

- Mae'n bosibl y bydd yr UBD yn ceisio cyngor gan ffonio MASH Caerdydd, a'i wneud yn glir ei fod yn gysylltiedig â mater amddiffyn plant er mwyn sicrhau bod yr alwad yn cael ei blaenoriaethu. Dylid atgyfeiriadau dros y ffôn dylid llenwi

ffurflenni CP1 (MA) (4.ch.227 ar CIS) a CS1 (4.ch.225 a CIS) i MASH Caerdydd o fewn 24 awr o'r alwad ffôn gychwynnol. Dylid cadw copi ar gyfer eich cofnodion. **Ni ddylai oedi fod wrth wneud yr atgyfeiriad.** Ni all gweithwyr proffesiynol aros yn ddi-enw wrth wneud atgyfeiriad. Pan ddywedir wrth yr UBD nad yw atgyfeiriad yn ofynnol, ond bod yr UBD yn anghytuno â'r penderfyniad, dylid ystyried eu barn broffesiynol a chyflwyno atgyfeiriad.

Wrth wneud atgyfeiriad amddiffyn plant, dylid gwneud pob ymdrech i gael caniatâd y rhieni oni bai bod gwneud hynny yn codi risg o niwed sylweddol i'r plentyn. Mater i Wasanaethau Plant yn MASH fydd penderfynu a gyrhaeddwyd y trothwy ar gyfer gweithredu gweithdrefnau amddiffyn plant. Dylech bob amser geisio arweiniad gan Wasanaethau Plant yn MASH cyn i chi gyflwyno atgyfeiriad.
Cofnodwch bob cam gweithredu a gymerir yn unol â'ch cyfrifoldebau a'ch dyletswydd i adrodd fel UBD.

Os caiff atgyfeiriadau eu gwneud er mwyn ystyried anghenion gofal a chymorth ar gyfer plentyn (asesiad llesiant), mae gofyn cael caniatâd gan Riant/Rieni neu bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant.

- Os rhoddir gwybod i aelod o staff bod plentyn wedi datgelu ei fod/ei bod wedi cael ei gam-drin/ei cham-drin, mae'n rhaid i'r aelod o staff **BEIDIO** â mynd â'r plentyn trwy gyfweliad ffurfiol er mwyn cadarnhau pryderon yr aelod o staff ond mae'n rhaid iddo gyfeirio'r mater **AR UNWAITH** i'r UBD neu'r Dirprwy, neu yn absenoldeb y ddau, i MASH Caerdydd.

- Dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r UBD am bob atgyfeiriad a wneir gan y staff i MASH Caerdydd yn ystod ei absenoldeb/ei habsenoldeb.

- Os bydd unrhyw bryderon o ran Amddiffyn Plant ac mae'r plentyn ar fin gadael adeilad yr ysgol, dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth. Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â MASH Caerdydd, yn penderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd.

- Dylai UBDau/staff ysgolion dderbyn ymateb ysgrifenedig i'w hatgyfeiriad o fewn 7 diwrnod gwaith. Os na chaiff ei dderbyn wedi 7 diwrnod, mae gan UBDau hawl i gysylltu â MASH Caerdydd i gael diweddariad.

- Mae'n bwysig bod staff yn gwneud gwaith dilynol gyda'r UBD i gael gwybod pa gamau gweithredu os unrhyw beth a gymerwyd yn dilyn datgeliad neu bryder. Rhoddir gwybod i staff am wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag achosion unigol parthed amddiffyn plant ar sail "angen gwybod" yn unig. Mae'n rhaid storio unrhyw wybodaeth a rennir gydag aelod o staff yn y modd hwn yn ddiogel. Os bydd gan yr aelod o staff bryderon o hyd, yna dylid rhoi gwybod i'r pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr os mai'r Pennaeth yw'r UBD. Hefyd, gall yr aelod staff adrodd ei bryderon i MASH Caerdydd neu'r Tîm Diogelu Addysg.

- Os bydd yr unigolyn sy'n adrodd am y pryder yn anghytuno â phenderfyniad yr UBD nad oes angen atgyfeiriad, mae'n rhaid iddo wneud yr atgyfeiriad yn uniongyrchol i MASH Caerdydd a rhoi gwybod i'r UBD am hyn. Gellir cael cyngor a chymorth gan y Tîm Diogelu Addysg yn ôl y gofyn.

Mae'r ysgol hon yn cydnabod bod arni ddyletswydd i adrodd am bryderon ynglŷn ag amddiffyn plant ac i beidio ag ymchwilio.

**Os oes gan blentyn mewn ysgol anaf ac mae rheswm i gredu y cafodd ei achosi gan gam-drin, dylid cymryd y camau canlynol.**

- Os yw'r anaf yn ddifrifol ac mae angen sylw meddygol ar frys, dylid mynd â'r plentyn i'r Adran Achosion Brys. Mewn argyfwng, dylid defnyddio'r gwasanaeth 999.

- Mae'n rhaid i MASH Caerdydd gael gwybod am y camau gweithredu hyn **AR UNWAITH** oherwydd mae'n bosibl y byddant yn dymuno gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan bediatrydd wrth iddo gyrraedd yr ysbyty. Dylid dweud yn glir bod hwn yn achos amheuaeth o gam-drin plentyn.

- Mewn achosion pan fydd achos rhesymol dros gredu bod yr anaf neu'r cam-drin wedi'i achosi gan y rhiant neu'r gofalwr, dylai pob aelod staff gofio mai lles y plentyn sy'n hollbwysig ac felly dylent drafod eu pryderon gyda thîm MASH Caerdydd neu'r Heddlu a fydd yn gwneud y penderfyniad o ran pryd y rhoddir gwybod i'r rhieni/gofalwyr.

## v) Ymdrin â Datgeliadau

**Beth i'w wneud os bydd plentyn yn dweud wrthych ei fod yn cael ei niweidio**

- Dylech bob amser aros a gwrando ar rywun sydd eisiau dweud wrthych am ddigwyddiadau neu eu bod yn amau bod cam-drin yn digwydd. Dangoswch eich bod yn cymryd eu hamheuon o ddifri.

- Peidiwch byth ag addo y byddwch yn cadw'r hyn a ddywedir yn gyfrinachol neu'n gyfrinach - dylech dawelu eu meddyliau ac esbonio'ch dyletswydd i sôn am bryderon o'r fath a'r hyn fydd yn digwydd nesaf

- Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol a allai roi eich syniadau chi am yr hyn ddigwyddodd (e.e. a wnaeth e *x* i chi?)– Gofynnwch "beth wyt ti eisiau ei ddweud wrtha i?" neu "oes unrhyw beth arall rwyt ti eisiau ei ddweud". Yr arfer gorau fyddai defnyddio'r dull DED (dweud, esbonio, disgrifio). Peidiwch â thorri ar draws pan fydd y plentyn yn cofio digwyddiadau a pheidiwch â gorfodi'r plentyn i ailadrodd.

- Cyn gynted â phosibl ar ôl y datgeliad, dylech gofnodi yn ysgrifenedig yr hyn a ddwedwyd. Byddwch mor fanwl gywir â phosibl, gan ddefnyddio geiriau ac iaith y plentyn ei hun e.e. Cymraeg, Wrdw ayyb. Dylech gynnwys yn eich cofnod amser a dyddiad y datgeliad ac a oedd unrhyw un arall yn bresennol. Nodwch ymddygiad y plentyn (byddwch yn benodol o ran sut mae'r plentyn yn ymddwyn/adweithio e.e yn crio yn hytrach na dweud wedi ypsetio yn unig). Nodwch unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar ôl y datgeliad. (defnyddiwch y Cofnod Pryder yn atodiad D)

  Bydd yr UBD yn storio'r Cofnod Pryder yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

- Dylech ddweud wrth yr UBD ar unwaith a pheidio â dweud wrth oedolion neu bobl ifanc yr hyn a ddwedwyd wrthych.
  Cyn gynted ag y bo modd (ac yn sicr yr un diwrnod) dylai'r UBD gyfeirio'r mater at MASH Caerdydd. Dylech chi ddilyn eu cyngor o ran yr hyn i'w wneud

nesaf. Dylai staff gofio bob amser mai eu rôl nhw yw helpu'r Heddlu a Gwasanaethau Plant ac NID i ymgymryd â'u hymchwiliadau eu hunain.

- Peidiwch â phoeni eich bod wedi gwneud camgymeriad; mae cyfrifoldeb arnoch i sôn am eich pryderon ar ôl datgeliad o gam-drin. Peidiwch byth â meddwl bod cam-drin yn amhosibl yn eich sefydliad neu eich grŵp, neu fod cyhuddiad yn erbyn rhywun rydych yn ei adnabod yn dda ac yn ymddiried ynddo yn siwr o fod yn anghywir.

**Mae'n bwysig eich bod yn**

| **DYLECH** | **NI DDYLECH** |
|---|---|
| • **Gadw meddwl agored**<br>• **Tawelu meddwl y plentyn fod hawl i ddweud ganddynt**<br>• **Gwrando'n ofalus**<br>• **Gweithio ar gyflymder y plentyn**<br>• **Gofyn cwestiynau agored yn unig – os bydd rhaid i chi ofyn iddynt, sicrhewch y ffeithiau, a pheidiwch â'u holi'n dwll**<br>• **Esbonio yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud nesaf**<br>• **Cofnodi'n gywir ac yn gyflym gan ddefnyddio geiriau'r plentyn**<br>• **Trosglwyddo'r achos i'r UBD yr un diwrnod** | • **Addo cadw'r hyn y maent yn ei ddweud wrthych chi yn gyfrinachol**<br>• **Torri ar draws**<br>• **Holi'n dwll/ymchwilio**<br>• **Cymryd yn ganiataol e.e. mae'r plentyn hwn yn un sy'n dweud celwyddau**<br>• **Gwneud awgrymiadau am yr hyn sy'n cael ei ddweud**<br>• **Dyfalu neu gyhuddo unrhyw un**<br>• **Dangos dicter, sioc ayyb....**<br>• **Dweud wrth y plentyn am fynd i siarad â rhywun arall**<br>• **Anghofio cofnodi'n gywir a/neu drosglwyddo i'r UBD**<br>• **Wynebu'r cam-driniwr honedig** |

## vi) Presenoldeb mewn cynadleddau a grwpiau craidd amddiffyn plant

Cyfrifoldeb yr UBD yw sicrhau y caiff yr ysgol ei chynrychioli mewn unrhyw gynhadledd amddiffyn plant ar gyfer plant sydd ar gofrestr eu hysgol hwy neu eu bod eisoes yn eu hadnabod.

Dylid briffio'r UBD neu'r unigolyn a enwebir yn llawn ar unrhyw broblemau neu bryderon sydd gan yr ysgol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hadroddiad yn ystod y cyfarfod a gwneud penderfyniadau ynglŷn â chofrestru ar ddiwedd y gynhadledd.

Pan gaiff plentyn ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac felly'n destun cynllun Amddiffyn Plant, cyfrifoldeb yr UBD fel rhan o'r grŵp craidd yw sicrhau y caiff y plentyn ei fonitro o ran ei bresenoldeb yn yr ysgol a'i lesiant a bod y cynllun Amddiffyn Plant yn mynd rhagddo.

Bydd ysgol bob amser yn rhan o'r Grŵp Craidd os yw'r plentyn o oedran ysgol. Dylai'r UBD sicrhau y caiff yr ysgol ei chynrychioli yn y cyfarfodydd hyn; bod cofnod o bresenoldeb a'r materion a drafodwyd. Bydd cynrychiolydd yr ysgol yn ysgwyddo rôl y Cadeirydd os y'i enwebir i wneud hynny.

Dylid trafod a cofnodi'r holl bryderon ynglŷn â'r cynllun amddiffyn plant a/neu lesiant y plentyn yn nghyfarfod y grŵp craidd. Pan fydd pryderon bod y plentyn mewn perygl pellach o niwed sylweddol, mae'n rhaid i'r UBD ddweud wrth weithiwr cymdeithasol y plentyn **ar unwaith** ac wedyn cofnodi iddo wneud ac y cytunwyd ar y camau gweithredu.

Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i Wasanaethau Plant os:

- caiff disgybl ar y gofrestr Amddiffyn Plant ei wahardd boed ar gyfer gwaharddiad tymor penodol neu barhaol; a
- bydd absenoldeb heb esboniad gan ddisgybl ar y gofrestr Amddiffyn Plant o fwy na deuddydd o'r ysgol (neu am un diwrnod yn dilyn penwythnos)
- os bydd pryder bod plant sy'n destun cynllun Amddiffyn Plant yn mynd ar goll

## vii) Cadw Cofnodion

Dylai unrhyw aelod o staff sy'n derbyn datgeliad am gam-drin gan blentyn / person ifanc, neu sy'n sylwi ar arwyddion neu symptomau o gam-drin posibl mewn plentyn / person ifanc, wneud nodiadau cyn gynted ag y bo modd, am yr hyn a ddwedwyd neu a welwyd, amgylchiadau'r plentyn / person ifanc a rhoi'r amser a'r lleoliad. Mae'n bwysig iawn cadw'r cofnod hwn yn ddiogel ac yn gyfrinachol yn y Ffeil Amddiffyn Plant. Bydd dogfen cofnodi pinc yr ysgol yn cael ei defnyddio i gofnodi'r gwybodaeth.

- Dylid cofnodi dyddiadau ac amserau digwyddiadau mor gywir â phosibl, ynghyd â nodyn ynghylch pa bryd y gwnaed y cofnod. Dylid llofnodi a dyddio hyn a'i gyflwyno i sylw'r UBD er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu eraill.

- Dylid rhoi'r holl ddogfennaeth/cofnodion sy'n perthyn i bryderon amddiffyn plant ar ffeil amddiffyn plant unigol y plentyn a'i storio'n ddiogel. Dylid ffeilio

Log Cofnod Dogfen 1 ar ddechrau pob ffeil Amddiffyn Plant a'i ddefnyddio fel cronoleg er mwyn logio digwyddiadau, cyfarfodydd neu gysylltiadau ayyb.

- Pan fydd plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael yr ysgol bydd yr UBD yn rhoi gwybod i ysgol newydd y plentyn ar unwaith.

- Bydd yr UBD yn rhoi gwybod i Wasanaethau Plant / gweithiwr cymdeithasol am newidiadau sylweddol i'r cynllun amddiffyn plant neu amgylchiadau'r teulu.

- Os bydd gan y plentyn ffeil Amddiffyn Plant a'i fod yn symud i ysgol arall (naill ai ynghanol blwyddyn neu'n pontio o'r Ysgol Feithrin i'r Ysgol Gynradd neu i'r Ysgol Uwchradd), bydd yr UBD yn rhoi gwybod i'r ysgol newydd am y pryderon o ran amddiffyn plant. Ar ben hynny, bydd yr UBD yn sicrhau;

    - y caiff y ffeil Amddiffyn Plant ei chadw yn yr ysgol (cyfnod cadw yw pum mlynedd ar hugain ar ôl dyddiad geni'r plentyn) a;
    - caiff copi o'r ffeil Amddiffyn Plant ei drosglwyddo'n ddiogel i'r ysgol newydd (ar wahân i'r ffeil addysg) a;
    - Hysbysir Gwasanaethau Plant o'r newid ysgol os yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**Mae gan y ddwy ysgol sy'n cymryd rhan yn nhrosglwyddiad y plentyn yr un cyfrifoldeb i sicrhau y rhennir dogfennaeth/gwybodaeth briodol a pherthnasol mewn ffordd brydlon, diogel ac amserol.**

## viii) Cyfrinachedd

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn ymyrraeth gynnar i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol yn cael y gwasanaethau sy'n ofynnol ganddynt. Mae hefyd yn hanfodol amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dioddef niwed yn sgil cam-drin neu esgeuluso ac i'w hatal rhag troseddu.

Wrth rannu gwybodaeth bydd angen i chi fod yn fodlon bod un ai
- Rhwymedigaeth statudol i ddatgelu
- Caniatâd datganiedig neu ymhlyg gan y personau dan sylw; neu
- Budd y cyhoedd o'r pwys mwyaf i ddatgelu gwybodaeth.

Dylid cofnodi'r holl benderfyniadau a wneir yn ysgrifenedig.

Dylech chi geisio cyngor gan eich UBD os byddwch yn amau, yn enwedig pan fydd eich amheuaeth yn ymwneud â niwed sylweddol posibl i blentyn neu niwed difrifol i eraill. Fodd bynnag, os ydych chi'n ystyried bod plentyn mewn perygl, ni ddylech oedi cyn ceisio cyngor gan Wasanaethau Plant yn absenoldeb siarad â'r UBD.

Dylid sicrhau bod rhieni'n ymwybodol bod dyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a bod y cyfrifoldeb hwn yn sicrhau bod angen polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant: ar adegau mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partner pan fydd pryderon o'r fath.

Mae Ysgol Plasmawr yn ystyried bod pob gwybodaeth sy'n perthyn i faterion amddiffyn plant yn gyfrinachol a bydd yn ei thrin yn unol â hynny. Caiff gwybodaeth ei throsglwyddo i bersonau priodol yn unig. Bydd yr ysgol yn gwirio pwy yw'r person y

rhennir y wybodaeth â hwy. Caiff ffeiliau amddiffyn plant eu storio mewn lleoliad diogel dan glo.

## 3. Cefnogaeth i Ddisgyblion

Rydym yn cydnabod y bydd plant sy’n cael eu cam-drin neu'n gweld trais o bosibl yn ei chael yn anodd
datblygu ymagwedd o hunanwerth. Mae’n bosibl mai’r ysgol fydd yr unig elfen sefydlog, ddiogel ym
mywydau’r plant sydd mewn perygl.
Er hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn herfeiddiol, neu mae’n bosibl y byddant yn fewnblyg.

Rydym yn cydnabod bod rhai plant yn mabwysiadau ymddygiad ymosodol a bod rhaid cyfeirio’r plant hyn ymlaen i gael cymorth ac ymyrraeth briodol.

Bydd yr ysgol yn gwneud ymdrech i gefnogi'r disgybl trwy:

- Y cynnwys yn y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliad.
- Ethos yr ysgol sy’n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel, ac sy’n rhoi ymdeimlad i ddisgyblion o gael eu gwerthfawrogi
- Nod polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnog disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ymagwedd gyson nad yw’n priodoli bai am unrhyw gam-drin a ddigwyddodd
- Cysylltu ag asiantaethau eraill o fewn fframwaith aml-asiantaeth sy’n cefnogi’r disgybl megis Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, y Gwasanaethau Cefnogi Disgyblion a sefydliadau gwirfoddol.
- Ymrwymiad i ddatblygu perthnasoedd cynhyrchiol a chefnogol gyda rhieni pryd bynnag y mae er lles gorau’r plentyn i wneud hynny

## i) Agored i Niwed Ychwanegol i Blant a Phobl Ifanc

Mae’r ysgol yn cydnabod bod grwpiau o Blant a Phobl Ifanc sy’n arbennig o agored i gael eu cam-drin. Rydym yn cyfeirio at Bennod 4: Cyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol “Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" 158/2015.

## 4. Atal Pobl Anaddas Rhag Gweithio gyda Phlant

**Recriwtio Diogelach**

Rydym ni ym Mhlasmawr yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio a rheoli sy’n cymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwiriadau priodol ar staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau rhyng-asiantaeth y cytunwyd arnynt ar y cyd gydag Adnoddau Dynol.

Byddwn ni ym Mhlasmawr yn dilyn gweithdrefnau’r Cyngor ar gyfer hysbysebu, cyfweld â staff a’u recriwtio, gan gynnwys y gofyniad am wiriadau Gwahardd a Datgelu (GDG) a rhoi ystyriaeth i Bennod 5: Arfer Recriwtio Diogelach “Cadw Dysgwyr yn Ddiogel”.

**Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**


Rydym ni ym Mhlasmawr yn gweithredu arferion recriwtio diogel i sicrhau bod pob aelod o staff sy’n dod i gysylltiad â phlant neu'n cael mynediad at wybodaeth am blant yn cael gwiriadau cyfeirio GDG yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 158/2015 Cadw dysgwyr yn ddiogel Pennod 6 a Polisi 1. CM.202 Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) Cyngor Caerdydd

### i) Honiadau yn Erbyn Staff yn lleoliad yr ysgol

Pan gaiff pryder neu honiad ei godi ynglŷn ag unrhyw oedolyn yn gweithio neu’n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys staff parhaol, dros dro neu gyflenwi a’i ymddygiad tuag at blentyn, mae'n rhaid ymgymryd â'r gweithdrefnau canlynol.

- Dylid rhoi gwybod i Bennaeth yr ysgol neu Ddirprwy Bennaeth (yn absenoldeb y Pennaeth) ar unwaith
- Mae’n rhaid adrodd am bob pryder neu honiad i MASH Caerdydd neu’r heddlu heb oedi. Bydd MASH yn rhoi’r newyddion diweddaraf i’r Tîm Diogelu Addysg ac i Finn Madell, y Person a Ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol (PDdALl)
- Bydd yr ysgol yn ceisio cyngor gan Adnoddau Dynol (AD) ynglŷn â pharhau â chyflogaeth yr aelod o staff, a dylid ymgymryd ag asesiad o risg a’i gofnodi’n ysgrifenedig ar unwaith. Os bydd yr honiad yn perthyn i staff cyflenwi, cysylltwch â’r asiantaeth yn uniongyrchol.
- Os digwydd bod yr honiad yn cael ei wneud yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol am y Pennaeth, dylai’r aelod staff adrodd am yr honiad i Gadeirydd y Llywodraethwyr yn syth.
- Mae’n rhaid peidio â chynnal ymchwiliad ffurfiol sy'n cynnwys cwestiynu neu gyfweld â disgyblion/staff y digwyddiad honedig oni bai bod Gwasanaethau Plant, PDdALl neu'r Heddlu yn rhoi cyfarwyddiadau i wneud felly. Fodd bynnag, mae’n briodol sicrhau ffeithiau (pwy, beth, ble, pryd), sicrhau unrhyw ffilm teledu cylch cyfyng a chymryd adroddiadau naratif er mwyn rhoi digon o wybodaeth i Wasanaethau Plant neu’r heddlu.

- Mae’n rhaid i’r aelod o staff sy'n adrodd am y digwyddiad honedig hwn gadw yn llwyr at gyfrinachedd a pheidio â thrafod y pryderon gyda’r cyflawnwr honedig neu unrhyw berson arall heblaw am y Pennaeth



Mae staff yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain a dylent osgoi unrhyw ymddygiad a fyddai'n arwain unrhyw berson rhesymol i gwestiynu eu cymhelliant a'u bwriadau. Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol na chaiff ymddygiad anghyfreithlon neu anniogel ei oddef a phan fydd yn briodol, fod camau cyfreithiol neu gamau disgyblu yn debygol o ddilyn y fath ymddygiad.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnal ffiniau priodol a phroffesiynol yn eu perthnasoedd gyda disgyblion a rhieni fel y cynghorir gan God Ymarfer yr Awdurdod Lleol, a Chod Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg.
http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/documentuploads/00825/016662/9694/5.C.014%20Code%20of%20Conduct.pdf
https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/fitness-to-practice/157-ewc-code-of-professional-conduct-and-practice

Honiadau o gamdrin yn erbyn Gweithwyr Proffesiynol - Gweithdrefnau

Mae gweithdrefnau mewn perthynas â honiadau o gam-drin yn erbyn gweithwyr proffesiynol, aelodau o staff neu wirfoddolwyr sydd mewn cysylltiad â phlant yn ategu'r arweiniad cenedlaethol yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, Canllaw BLlDP* a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 rhan 4, Diogelu Plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill LlC 009/2014.

## ii) Chwythu'r Chwiban

Rydym yn cydnabod na ellir disgwyl i blant godi pryderon mewn amgylchedd lle y mae staff yn methu â gwneud hynny.

Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'u dyletswydd i godi pryderon ynglŷn ag agwedd neu weithrediadau cydweithwyr, rhieni neu unrhyw un y tu allan i'r gwaith y mae pryderon ganddynt yn eu cylch. Os bydd angen, dylent ddarllen Polisi Chwythu'r Chwiban yr Awdurdodau Lleol.

## iii) Polisïau Cysylltiedig Eraill

### Polisi Ymyrryd/ Ffrwyno Corfforol

Disgrifir ein polisi ar ymyrraeth gorfforol gan staff mewn dogfen ar wahân a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu. Rydym yn cydnabod y dylai staff ond ddefnyddio ymyrryd/ataliaeth corfforol fel y dewis olaf, ac ar bob adeg rhaid defnyddio'r grym lleiaf posibl sydd ei angen i atal anaf i'r disgybl ei hun, i berson arall neu i eiddo.

**Gwrth-Fwlio**

Disgrifir ein polisi ar fwlio mewn dogfen ar wahân a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu o dan yr arweiniad a osodir o fewn 'Parchu Eraill' - Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod y gallai caniatáu neu oddef bwlio arwain at ystyriaeth o dan weithdrefnau amddiffyn plant

**Iechyd a Diogelwch – Diogelwch ar Safle'r Ysgol**

Mae Ysgol Plasmawr yn lle saff a diogel i ddisgyblion ddysgu a datblygu sgiliau cymdeithasol. Mae diogelwch ffisegol disgyblion pan fyddont ar safle'r ysgol yn hollbwysig. Caiff mynediad at safle'r ysgol ei fonitro a'i adolygu'n llym yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Lleol ar Iechyd a Diogelwch adeiladau ysgolion.

Gofynnir i bob contractwr dyddiol ar ein safle lofnodi i mewn ac allan o adeiladau ysgolion. Byddant yn glir wrth nodi'r cwmni y maent yn gweithio iddo a'r rheswm dros eu hymweliad. Gan ei fod yn annhebygol y bydd gan gontractwr dyddiol ddatgeliad GDG ar gael i'w weld gan yr ysgol, caiff dull arall o asesiad risg ei ddefnyddio. Caiff asesiad risg ei greu gan yr Ysgol a fydd yn rhestru'r mesurau rheoli a ddefnyddir gan yr ysgol i ddiogelu disgyblion. Atodir Log Ymwelwyr sy'n Gontractwyr (Dogfen 2) y dylid ei gwblhau.

Disgrifir ein polisïau iechyd a diogelwch mewn dogfen ar wahân a chânt eu hadolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu. Mae'n adlewyrchu'r ystyriaeth rydym yn ei rhoi i amddiffyn ein plant, o fewn amgylchedd yr ysgol ac i ffwrdd o'r ysgol wrth fynd ar deithiau ac ymweliadau ysgol.

Hefyd mae angen rhoi ystyriaeth i unrhyw Ddarparwyr Clybiau ar ôl Ysgol neu glybiau/grwpiau a allai fod yn defnyddio safle'r ysgol y tu allan i oriau ysgol.

**Plant sydd â Datganiadau o Anghenion Arbennig**

Mae ein polisi yn cydnabod y bydd plant sydd ag anawsterau ac anableddau ymddygiadol o bosibl yn agored i gael eu cam-drin ac mae'n bosibl y byddant yn cael anhawster wrth ddatgelu eu profiadau. Mae angen i staff sy'n ymdrin â phlant sydd ag anableddau dwys a lluosog, nam synhwyraidd a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiadol fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

**Plant sy'n mynd i mewn i'r System Derbyn Gofal**

Mae Ysgol Plasmawr yn cydnabod bod plant sy'n mynd i mewn i'r System Derbyn Gofal yn aml ymhlith y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae polisi'r ysgol ar Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC) wedi'i restru yn (dogfen ar wahân)

**Defnyddio'r Rhyngrwyd**

Mae ein polisi ar ddefnyddio'r rhyngrwyd wedi'i nodi mewn dogfen ar wahân a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraeth. Mae'r arweiniad yn canolbwyntio ar ddiogelwch personol a lles disgyblion yn yr ysgol ac mae'n rhestru nifer o bwyntiau er mwyn egluro'r peryglon posibl a'r camau y gall staff eu cymryd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r rhyngrwyd.

Caiff unrhyw gais gan blentyn/person ifanc i gysylltu â staff drwy'r fath safleoedd rhyngrwyd ei adrodd ar unwaith i'r Pennaeth er mwyn gallu rhoi cyngor priodol i'r plentyn/ person ifanc a'i rieni/ ofalwyr ynglŷn â ffiniau proffesiynol a diogelwch y plentyn/person ifanc.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Bydd staff yn sicrhau na fydd unrhyw ddefnydd personol ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol yn amharu mewn unrhyw ffordd ar ysgol nac ar eu safonau proffesiynol. Dylid dod ag unrhyw bryderon parthed ymddygiad unrhyw aelod o staff i sylw'r Pennaeth neu'r Gadeirydd y Llywodraethwyr fel sy'n briodol. Bydd staff hefyd yn ystyried Protocol Ysgolion TGCh Cyngor Caerdydd a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol a Defnyddwyr Ar-lein Cyngor Caerdydd.

http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=52339

http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=66639

https://www.ewc.wales/site/index.php/en/documents/fitness-to-practice/good-practice-guides/194-social-media-do-you-use-it-responsibly?highlight=WyJzb2NpYWwiLCInc29jaWFsIiwibWVkaWEiLCJzb2NpYWwgbWVkaWEiXQ==

**Defnyddio Delweddau**

Rhestrir ein polisi ar ddefnyddio delweddau disgyblion yn (Polisi ar wahân). Gall delweddau ffotograffig a fideo o blant gael eu recordio at wahanol ddibenion. Bydd gofyn i staff dynnu lluniau o ddisgyblion at ddibenion cwricwlwm, gweithgareddau ysgol ychwanegol, cyhoeddusrwydd a dathlu cyflawniadau.

Mae'r arweiniad yn amlygu y dylid cymryd gofal arbennig ynglŷn â defnydd delweddau sydd o bosibl yn cynnwys Plant Sy'n Derbyn Gofal neu blant o grwpiau eraill sy'n agored i niwed, er enghraifft ceiswyr lloches.

Mae'n rhaid gofyn i bob rhiant/gofalwr roi caniatâd penodol i unrhyw ddelwedd o'i blentyn gael ei recordio.

Argymhellir, wrth ddefnyddio ffotograff, y dylid dilyn yr arweiniad canlynol

- Os defnyddir y ffotograff, dylid osgoi enwi'r plentyn

- Os caiff y plentyn ei enwi, dylid osgoi defnyddio’r ffotograff
- Penderfynu a chofnodi a gaiff y ddelwedd ei chadw i'w defnyddio eto
- Caiff delweddau eu storio’n ddiogel a’u defnyddio gan y rhai a awdurdodir i wneud hynny. Dylent fod ar gael i'w craffu er mwyn sicrhau eu bod yn dderbyniol.

*Mae arweiniad ar gael yn Cis “Defnyddio Delweddau Disgyblion yn Ddiogel – Arweiniad Arfer Gorau i Ysgolion” ynghyd â thempled ffurflen cydsynio.*

**Ni ddylai staff fyth ddefnyddion eu hoffer personol eu hunain i greu delweddau.**

http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/viewdocument.php?id=59237

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**

Mae FGM yn golygu cam-drin corfforol ac emosiynol i blant – mae’n arfer anghyfreithlon ac mae’n hynod niweidiol.

Fel ysgol rydym yn cydnabod y dyletswydd statudol i adrodd am achosion “hysbys” o dan adran 5B Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003) i rif yr heddlu 101 nad yw'n rhif argyfwng pan fydd disgybl o dan 18 oed yn datgelu eu bod wedi cael FGM neu fel gweithiwr proffesiynol y gwelwyd arwyddion corfforol o FGM.

Mewn sefyllfaoedd pan fydd oedolyn yn datgelu bod disgybl wedi cael FGM neu mae aelod o staff yn amau bod plentyn o bosibl wedi cael FGM neu ei bod mewn perygl difrifol o FGM sydd ar fin digwydd, ceisir cyngor ar unwaith gan MASH Caerdydd a chydgysylltiad â Gwasanaethau Plant a/neu/r heddlu.

Mae rhagor o arweiniad ar gael gan Brotocol Cymru Gyfan FGM 2011; Adrodd Gorfodol y Swyddfa Gartref ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – gwybodaeth gweithdrefnol; arweiniad statudol Aml-asiantaeth Llywodraeth ei Mawrhydi ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Ebrill 2016.

Dylai ysgolion ymgyfarwyddo â’r arweiniad statudol a chyflwyno’r gofynion ‘dyletswydd i adrodd’ newydd.

https://www.gov.uk/government/publications/mandatory-reporting-of-female-genital-mutilation-procedural-information

**Cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol**

- Mae trais domestig yn gam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol pan fydd y dioddefwr yn gysylltiedig â’r camdriniwr.
- Mae trais ar sail rhywedd yn drais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy’n codi’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n perthyn i rywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod.
- Mae trais rhywiol yn cynnwys ecsbloetio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais rhywiol eu natur.

Fel ysgol rydym yn cydnabod bod cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Nid yw cam-drin domestig yn ddigwyddiadau un-tro. Mae’n digwydd yn aml ac yn barhaus. Rydym yn deall y bydd plant yn ymateb mewn ffyrdd

gwahanol o gael eu magu mewn cartref gyda pherson treisgar ac rydym yn ymwybodol o'r gwahanol arwyddion a symptomau. Gellir effeithio ar bresenoldeb a chyflawniadau academaidd plentyn hefyd. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd gan staff achos i gredu bod disgybl mewn perygl o drais neu gam-drin, yn destun, neu'n byw mewn aelwyd gyda thrais neu gam-drin, mae'n rhaid i'r UBD gael gwybod ar unwaith ac mae'n rhaid cymryd camau gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau amddiffyn plant.

Gellir ceisio rhagor o wybodaeth gan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Canllawiau Arfer Da o ran Ymagwedd Addysg Gyfan Llywodraeth Cymru.

## Radicaleiddio/ Eithafiaeth

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau ( o dan Adran 26 Deddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Arweiniad ar Ddyletswydd Atal) er mwyn diogelu disgyblion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio.

Mae'r ysgol yn gwneud hyn trwy:

- Ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion siarad am faterion sy'n peri pryder iddynt, gan gynnwys pynciau sensitif, megis terfysgaeth ac ideoleg eithafol.
- Adnabod ac asesu risg unigolion y gallant gael eu tynnu at derfysgaeth, eithafiaeth dreisgar, neu eithafiaeth di-drais.
- Gwybod sut i gwblhau atgyfeiriad Sianel a sut i geisio cymorth ar gyfer y plentyn/person ifanc.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant priodol (Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP)) a bod y wybodaeth a'r hyder ganddynt i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o gael eu tynnu at derfysgaeth ac eithafiaeth a herio syniadau eithafol.
- Sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgaeth ac eithafiaeth wrth gael mynediad at y Rhyngrwyd yn yr ysgol gan gynnwys bod â lefelau ffiltro priodol ar waith, sy'n cael eu rheoli gan Awdurdod Lleol Caerdydd.

Diffiniadau

- Diffinnir '**Eithafiaeth'** yn strategaeth *Prevent* 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu actif i werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a chyd-oddefgarwch at ffydd a chredau gwahanol. Rydym hefyd yn cynnwys yn ein diffiniad o eithafiaeth alwadau i weld lladd aelodau o'n lluoedd arfog, yn y wlad hon neu dramor.
- **'Eithafiaeth di-drais'** yw eithafiaeth, fel y'i diffinnir uchod, nad sy'n cynnwys trais.
- Ystyr **'Atal'** yng nghyd-destun y ddogfen hon yw lleihau neu ddileu risg unigolion rhag dechrau ymwneud â therfysgaeth. Mae *Prevent* yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i adnabod ac atgyfeirio'r rhai hynn sydd mewn perygl o gael eu tynnu at derfysgaeth i'r ymyriadau priodol. Nod yr ymyriadau hyn yw dargyfeirio pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio.
- Mae '**Radicaleiddio'** yn cyfeirio at y broses lle bydd person yn dod i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol.

www.northlincslscb.co.uk/EasySiteWeb/GatewayLink.aspx?alId=19744
http://ttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

Os bydd pryderon o natur amddiffyn plant dylid dilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant arferol a dylid ceisio cyngor o'r tîm PMP ynghyd â chyngor gan y Tîm Prevent.

Mae ffeil electronig o ddogfennau canllaw Prevent ar gael gan hwyluswyr WRAP
Cyhoeddwyd Mai 2016

**ATGYFEIRIO AT PREVENT**

Cyfeiriad e-bost Pwynt Mynediad Prevent:
prevent@south-wales.pnn.police.uk
Rhif Cyswllt: 02920 527 306
Hwn fydd y Pwynt Mynediad ar gyfer pob atgyfeiriad i'r tîm Prevent. Hefyd mae'r tîm bob amser ar gael i ateb unrhyw ymholiadau a chwestiynau.

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB)

Fel ysgol rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles ein disgyblion pan fydd pryderon eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin yn sgil camfanteisio'n rhywiol.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) yw gorfodi neu drin plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n ffurf ar gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid rhyw ffurf ar daliad a all fod yn arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, rhywle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae'r ffaith bod person ifanc yn agored i niwed a'r broses magu perthynas amhriodol a ddefnyddir gan gyflawnwyr camfanteisio yn gwneud y person ifanc yn analluog i gydnabod natur ecsbloetio perthnasoedd ac yn analluog i roi caniatâd gwybodus.
Mae CRhB yn cynnwys:
cam-drin trwy gyfnewid gweithgarwch rhywiol am ryw ffurf ar daliad
cam-drin trwy gynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant, boed yn ffotograffau, ffilmiau neu dechnolegau eraill
cam-drin drwy fagu perthnasoedd amhriodol trwy gysylltiad uniongyrchol neu trwy ddefnyddio technolegau megis ffonau symudol a'r rhyngrwyd
cam-drin drwy fasnachu pobl at ddibenion rhywiol

**Nid yw plant yn gwirfoddoli i gael eu hecsploetio ac ni allant gydsynio i gael eu cam-drin ; cânt eu gorfodi neu eu cymell.**

Os bydd pryderon fod plentyn mewn perygl o CRhB caiff Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (FfARGRh) ei chwblhau neu rhoddir ystyriaeth i'r rhestr o fod yn agored i, a pheryglon camfanteisio rhywiol (atodwyd yn nogfen 4) a'r cyngor a geisiwyd gan MASH Caerdydd.

Gellir ceisio rhagor o wybodaeth gan Brotocol Cymru Gyfan Diogelu Plant a Phobl Ifanc sydd mewn Perygl o Gamfanteisio Rhywiol 2013, Strategaeth Atal Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant Caerdydd a Thîm 'Diogelu Dy Hun' Caerdydd.

**Oriau Estynedig ac Oriau y Tu Allan I'r Ysgol**

- Os bydd y corff llywodraethu / ysgol yn darparu cyfleusterau ysgol estynedig neu weithgareddau sydd yn uniongyrchol o dan oruchwyliaeth rheoli staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant fel y'u hysgrifennwyd yn y polisi hwn yn gymwys.

Pan gaiff gwasanaethau neu weithgareddau eu darparu ar wahân gan sefydliad arall, bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig clir sy'n cadarnhau bod gan y darparwr dan sylw bolisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac amddiffyn plant, a bod trefniadau i gydgysylltu â'r ysgol ar y materion hyn lle y bo'n briodol. (paragraff 2.63 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel)

Er bod yr uchod yn rhestru cyfrifoldebau o dan amgylchiadau penodol mae ystyriaethau ychwanegol a phwysig mewn perthynas â materion amddiffyn plant a diogelu penodol. Mae'n rhaid i ysgol roi ystyriaeth i'w pholisïau Diogelu/Amddiffyn Plant ei hun pan fydd yn gosod ei hadeiladau i sefydliadau allanol. Dylai staff gyfeirio at Bennod 4 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel pan all mwy o adrannau o bosib fod yn gymwys i amgylchiadau disgybl unigol.

Cytunwyd gan y Pennaeth .................................

Cytunwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr .........................

Dyddiad Cyhoeddi: …………………………………

Dyddiad Adolygu: ……………………………..

Dogfen 1

# Cofnod Log Amddiffyn Plant

**Enw'r Plentyn** ________________________________________ **Dyddiad geni**________

| Dyddiad: | Natur y Cyswllt: | Cofnod y Cyswllt: | Camau a gymerwyd: | Llofnod: |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Log Ymwelwyr sy'n Gontractwyr

**Enw'r safle.....................................................................................................**

Mae'n rhaid i bob contractwr sicrhau bod y cynllun rheoli asbestos ar gyfer y safle hwn wedi'i wirio.

- Mae'n rhaid i'r drwydded asbestos i weithio a'r drwydded gyffredinol i weithio gael eu llofnodi'n llawn gan y contractwr a chynrychiolydd y safle.
- Mae'n rhaid i'r drwydded gyffredinol i weithio ar gyfer y safle gael ei lofnodi gan y contractwr a chynrychiolydd y safle wedi cwblhau unrhyw waith.

| Dyddiad | Rhif y Drwydded (4.SC.COMP.403) | Printiwch eich Enw | Enw'r Cwmni | Rhif Cofrestru'r Cerbyd | Amser i mewn | Amser allan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Agored i Niwed a Risgiau o Gamfanteisio Rhywiol

## Agored i Niwed

Anhawster o ran dysgu neu weithredu
Rhieni yn camddefnyddio sylweddau
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Trais domestig o fewn teuluoedd
Cam-drin corfforol mewn plentyndod
Cam-drin rhywiol mewn plentyndod
Cam-drin emosiynol yn ystod plentyndod
Esgeulustod yn ystod plentyndod
Aelod o deulu'n ymwneud â gwaith rhyw
Perthnasoedd teuluol yn torri i lawr
Profedigaeth
Hunan-barch isel
Wedi'i ynysu o gyfoedion/ rhwydweithiau cymdeithasol
Diffyg perthynas gadarnhaol gydag oedolyn sy'n eich amddiffyn ac yn eich meithrin
Profiad o ofal gan yr awdurdod lleol (Plentyn sy'n Derbyn Gofal)
Rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cydnabod risg neu'n gweithredu i amddiffyn
Byw mewn llety anaddas (16 - 17 oed yn byw yn annibynnol)

## Risgiau

Dioddefwr ymosodiad rhywiol (nid cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod)
Allgáu/absenoldeb/ymddieithrio o'r ysgol/addysg/hyfforddiant
Aros allan y tu hwnt i'r amser a ganiateir
Defnydd ffôn symudol sy'n peri pryder (e.e. bod â mwy nag un ffôn)
Defnydd y rhyngrwyd sy'n peri pryder (e.e. nifer o gyfrifon rhwydweithiau cymdeithasol o dan enwau gwahanol)
Rhannu/ derbyn/ meddu ar ddelweddau anweddus
Camddefnyddio alcohol/cyffuriau
Nifer o alwyr
Mynegi anobaith (er enghraifft hunan-niweidio, ebychiadau ymosodol)
Yn rhywiol weithredol/Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol/beichiogrwydd/ erthyliadau
Peidio â chadw mewn cysylltiad gydag oedolyn sy'n amddiffyn (plant rhwng 16-17 oed sy'n byw'n annibynnol)

## Risgiau Sylweddol

Ar goll dros nos neu'n hwy
'Sboner' sylweddol hŷn neu berthynas gydag oedolyn gorthrymus
Mynd i mewn / allan o gerbydau sy'n cael eu gyrru gan oedolion dieithr/sy'n peri pryder
Cwrdd â phobl wyneb yn wyneb y maent wedi 'cwrdd' â nhw gyntaf ar-lein
Treulio amser mewn ardaloedd sy'n adnabyddus oherwydd gwaith rhyw/ mannau poblogaidd ar gyfer CRhB
Cyfoedion yn ymwneud â CRhB
Datgelu ymosodiad rhywiol/corfforol wedi'i ddilyn gan dynnu'r datgeliad yn ôl
Cyfnewid gweithredoedd rhywiol am gyffuriau, alcohol, arian ayyb.
Cael eu gorfodi i wneud gweithrediadau rhywiol
Bod ag arian/ ffôn symudol/ dillad/cyffuriau/ alcohol/ eitemau eraill heb esboniad

## ➢ *Crynodeb ynghylch Plant sy'n Colli Addysg*

## ➢ *Gweithdrefnau i ysgolion eu dilyn pan fydd disgybl yn gadael heb gyrchfan sy'n hysbys*

Mae ar yr awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol er mwyn sicrhau bod plant sy'n colli addysg yn cael eu nodi yn gyflym a bod systemau monitro effeithiol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn cael mynediad at y ddarpariaeth mwyaf priodol cyn gynted ag y bo modd.

### ➢ Cyfrifoldebau

Dyletswydd pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth addysg yw sicrhau diogelwch plant yn eu gofal.

Mae gan ysgolion rôl hanfodol i'w chwarae pan fydd plant yn mynd ar goll o'r system addysg. Mae'n rhaid i Ysgolion a Swyddogion Presenoldeb ymgymryd â chamau gweithredu ar unwaith i geisio gwybod lleoliad y plentyn/plant trwy ddefnyddio gwybodaeth gyswllt sydd ganddynt eisoes ar gyfer y teulu, brodyr neu chwiorydd neu'r teulu estynedig. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestr wirio i ysgolion sy'n amlinellu camau gweithredu mae angen iddynt ymgymryd â nhw.

I sicrhau bod ysgolion yn rhoi systemau effeithiol ar gyfer monitro plant a phobl ifanc sy'n colli addysg ar waith, dylai fod ganddynt Gydlynydd Amddiffyn Plant dynodedig sy'n cael gwybod am unrhyw blant sy'n colli'r ysgol (a phan fydd absenoldeb yn afreolaidd fel arall oherwydd mae'n bosibl y bydd hyn yn dangos risg neu bryderon). Dylent fod yn gyfrifol dros sicrhau y dilynwyd y gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod yr awdurdod yn ymwybodol o unrhyw blentyn sy'n colli addysg.

Dylai fod gan ysgolion ganllawiau amddiffyn plant clir ar y camau i'w cymryd pe baent yn dechrau pryderi am leoliad unrhyw blentyn neu berson ifanc.

Os yw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu os oes gan yr ysgol bryderon penodol o ran Amddiffyn Plant ynghylch y plentyn, dylai'r ysgol roi gwybod i'r Pwynt Mynediad Plant ar unwaith ar 029 2053 6490 Ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am-5pm. Os yw y tu allan i'r oriau hyn, ffoniwch y tîm dyletswydd brys ar 029 2078 8570.

### ➢ Gweithdrefnau ar gyfer Ysgolion

Pan fydd yn ymddangos bod plentyn neu grŵp brodyr a chwiorydd wedi mynd ar goll neu os cânt eu tynnu allan o ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd heb i'r rhiant/ gofalwr roi rhybudd neu heb i'r ysgol gael gwybod am ysgol newydd, mae'n rhaid i'r ysgol roi'r camau canlynol ar waith:

- Pan fydd disgybl wedi cael ***10 diwrnod yn olynol*** o absenoldeb heb esboniad, mae'n rhaid i Swyddogion Presenoldeb Ysgol ymgymryd â chamau gweithredu i geisio adnabod lle mae plentyn/plant trwy ddefnyddio gwybodaeth cyswllt ar gyfer y teulu, brodyr a chwiorydd neu'r teulu estynedig, trwy siarad â ffrindiau'r plentyn, ymweld â'r cartref, siarad â chymdogion a chysylltu ag asiantaethau eraill er mwyn sefydlu lle mae'r plentyn/plant.

- Wedyn mae'n rhaid i'r ysgol a/neu'r Swyddog Presenoldeb Ysgol gwblhau'r rhestr wirio Plentyn yn Colli Addysg (PCA) ar gyfer ysgolion sydd wedi ei gynnwys. **Atodiad 1**

- Os bydd ymholiadau cychwynnol yn methu dod o hyd i le mae'r plentyn/plant, dylid anfon y rhestr wirio gyflawn i'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) er mwyn ymgymryd â rhagor o waith tracio. Dylid anfon hyn at atgyfeiriadauGLlA@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2233 0759.

- Dylai’r atgyfeiriad gynnwys copi o’r ddogfen gofrestru, a manylion unrhyw lythyron a anfonwyd/ymholiadau a wnaed.

- Bydd yr GLIA yn parhau i geisio dod o hyd i’r plentyn, gan ddefnyddio cysylltiadau yn adran y dreth cyngor, yr heddlu, iechyd, tai, ayyb.

- Er bod y Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 yn dweud y gellir dileu plentyn o’r gofrestr ar ôl 20 diwrnod ysgol o absenoldeb parhaus heb reswm da (10 diwrnod os yw’n dychwelyd o wyliau yn hwyr) mae cyfrifoldeb clir i sicrhau y cafodd y gweithdrefnau cywir o ymchwilio i'r absenoldeb hwn eu dilyn oherwydd ei bod yn bosibl y gall unrhyw blentyn sy'n absennol o addysg godi materion amddiffyn plant posibl.

- Dylai’r plentyn aros ar gofrestr yr ysgol hyd nes caiff yr holl ymholiadau rhesymol eu cwblhau hyd yn oed os bydd hyn yn golygu y bydd y disgybl yn cronni mwy na 20 diwrnod o absenoldeb.

- Bydd canlyniad ymdrechion yr ysgol a’r awdurdod lleol i ddod o hyd i’r disgybl yn pennu'r camau nesaf ac a yw'n briodol i'r plentyn gael ei ddileu o gofrestr yr ysgol. Os ydynt yn methu dod o hyd i’r disgybl, mae’n rhaid iddynt atgyfeirio’r achos at asiantaethau priodol. Mae’n bwysig y caiff yr holl gamau a amlinellir uchod eu dogfennu’n glir er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio clir o’r camau a gymerwyd i ddarganfod y plentyn.

- Dim ond pan fydd y Gwasanaeth Lles Addysg wedi cwblhau eu hymholiadau a dweud wrth yr ysgol am y canlyniad y gall yr ysgol ddileu'r disgyblion o'r gofrestr. Gyda chaniatâd y GLlA ***gellir ôl-ddyddio’r dileu i’r pwynt pan oedd y plentyn yn bresennol ddiwethaf.*** (Tan hynny, dylid defnyddio’r côd ‘N’ – ni ddarparwyd rheswm – absenoldeb anawdurdodedig).

- **Ni ddylai** ysgolion gofnodi symudiadau disgyblion fel ‘wedi symud tŷ’ neu ‘wedi mynd o’r ardal’ fel y rheswm dros adael ar SIMS. Mae gwybodaeth megis wedi symud i Fanceinion, Llundain neu Abertawe hefyd yn rhy amwys ac yn annerbyniol heb ddilyn y cam isod.

- Os cawsoch wybod yn unig bod y plentyn, er enghraifft, ‘wedi symud i Fanceinion’ ond nad oes manylion i’r ysgol newydd gennych, mae’n rhaid i chi ofyn i’r Swyddog Presenoldeb ysgol am waith dilynol gyda’r ALl lle y tybir y mae'r plentyn. Bydd angen iddynt gysylltu â'r adran Derbyniadau neu Lles Addysg yn yr ALl newydd er mwyn tracio hyn. Mae ‘Templed Symudiad Plant' wedi’i gynnwys yn **Atodiad 2.**

- Mae’r GLIA yn derbyn na chaiff pob symudiad ei gynllunio’n dda ymlaen llaw a’i fod yn bosibl na fydd ysgolion wedi derbyn manylion yr ysgol newydd yn syth. Felly os bydd yr ysgol wedi cofnodi cyrchfan o - TY – Trosglwyddo Ysgol ... ‘Manceinion’ (a rhoddwyd gwybod i’r SAO) ac bod yr ysgol newydd yn cysylltu maes o law i ofyn am CTF neu ffeil y disgybl, bydd angen golygu’r cyrchfan cynharach â llaw gyda’r wybodaeth ymadael berthnasol.

- Os bydd y cyrchfan yn anhysbys dylid ei gofnodi fel ‘anhysbys’ a dylid cofnodi cadarnhad y 'cafodd y Gwasanaeth Lles Addysg wybod’ neu fod atgyfeiriad PCA ei wneud. **Ni ddylid gadael y blwch hwn yn wag o dan unrhyw amgylchiadau.** Bydd hyn yn helpu i sicrhau tracio canolog ar symudiad disgyblion yn effeithlon.

- Wedyn dylai’r ysgol greu ffeil trosglwyddo gyffredin (CTF) “disgybl coll” gyda XXXXXXX fel cod y cyrchfan. Dylid uwchlwytho’r CTF hwn ar unwaith ar safle diogel s2s lle caiff ei gadw ar y Gronfa Ddata Disgyblion Coll.

- Mae’n bwysig nodi y gall unrhyw CTF a anfonwyd i ran 'Disgybl Coll' y safle s2s ond gynnwys manylion am un disgybl.

- Os bydd gan y disgybl ddatganiad, dylai’r ysgol roi gwybod i’r Tîm Gwaith Achos ym Mynachdy.

- Ar gyfer y rhan fwyaf o deuluoedd, mae symudiadau a newidiadau ysgol yn ddigwyddiadau a gynllunnir a gellid casglu gwybodaeth parthed y symudiad neu'r trosglwyddiad ysgol arfaethedig. Mae’n bosibl y bydd yn ddefnyddiol wrth dracio plant a phobl ifanc ac yn arbed amser nes ymlaen, os gellir gofyn i'r rhiant lenwi ffurflen i ddarparu'r wybodaeth hon. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys ‘ffurflen Hysbysu am Adael Ysgol’ enghreifftiol y mae llawer o ysgolion bellach wedi'i mabwysiadu.

- Mae’n bosibl y bydd ysgolion yn ei weld yn ddefnyddiol i gynnwys y ffurflen hon yn eu polisi presenoldeb a'u pecyn derbyn ar gyfer rhieni, yn sicrhau ei bod ar gael trwy eu gwefan, cyfeirio ati yn y cytundeb cartref-ysgol yn ogystal ag atgoffa rhieni mewn cylchlythyrau ysgol ayyb.

- **Addysg Cartref Ddewisol**

Pan fydd rhieni yn tynnu eu plentyn allan o'r ysgol er mwyn ei addysgu gartref ac mae'r plentyn o oedran ysgol gorfodol, gellir ond dileu enw'r plentyn o gofrestr derbyniadau'r ysgol os bydd y rhieni'n rhoi gwybod i'r ysgol yn ysgrifenedig fel y darperir gan *Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion ) 1995 o dan Reoliad 9(1)(c)*: “ei fod wedi peidio a mynychu’r ysgol ac mae’r perchennog wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y rhiant fod y disgybl yn derbyn addysg mewn modd gwahanol i fod yn yr ysgol.”

- Wedyn dyletswydd yr ysgol yw rhoi gwybod i’r Awdurdod Lleol o fewn y deg diwrnod yn dilyn y dyddiad pan ddilëwyd enw'r disgybl fel hyn.

- Dylid llenwi’r ffurflen Hysbysiad am Addysg Cartref Ddewisol **(Atodiad 4),** ei llofnodi gan y Pennaeth a’i hanfon gyda chopi o lythyr y rhieni at:

  Derbyniadau, Gwasanaeth Addysg, Cyngor Caerdydd, Neuadd Y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

- Os bydd y rhiant yn rhoi gwybod i’r Awdurdod Lleol, byddant hwy wedyn yn rhoi gwybod i'r ysgol.

- Wedyn dylid dileu enw’r plentyn o gofrestr yr ysgol. Mae angen cofnodi’r rheswm dros adael yn SIMS fel AG – Addysgir gartref (peidiwch â defnyddio EO). Byddai’n ddefnyddiol pe bai ysgolion yn gallu ychwanegu y cafodd ‘Hysbysiad ei anfon at yr Adran Derbyniadau'

- Dylid creu CTF gyda MMMMMMM fel y cod cyrchfan a'i uwchlwytho i wefan s2s. Mae hyn yn galluogi'r CTF i gael ei storio’n ddiogel a bod ar gael os bydd y plentyn neu berson ifanc yn dychwelyd i ysgol a gynhelir.  Bydd hyn yn helpu i sicrhau tracio canolog mwy effeithlon ar symudiad disgyblion.

Bydd y Gwasanaeth Lles yn monitro gwybodaeth am y cyrchfan yn fisol a bydd yn cyfeirio yn ôl i ysgolion os bydd y wybodaeth yn annigonol ac os bydd angen rhagor o waith dilynol.

*Atodiad 1*

**Rhestr Wirio Plant a Phobl Ifanc sydd ar Goll o Addysg**
Camau gweithredu i'w cymryd gan y **Swyddog Presenoldeb Ysgol** i ddod o hyd i'r plentyn/ person ifanc

***Os bydd gan yr ysgol unrhyw bryderon ynglŷn ag Amddiffyn Plant, mae'n rhaid atgyfeirio'r mater ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu.***

***Mae'n rhaid i chi barhau i fwrw ymlaen gyda'r atgyfeiriad i'r Swyddog Lles Addysg, hyd yn oed os cafodd atgyfeiriad amddiffyn plant ei wneud.***

| **Enw:** | **G/B** | **Dyddiad Geni** | **NCY** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **Enw Rhieni/ prif ofalwr:** | | | |
| **Cyfeiriad:** | | **Ffôn:** | |

**CAMAU GWEITHREDU'R YSGOL – A yw'r ysgol wedi gwneud y canlynol?**

| **Camau Gweithredu** | **Dyddiad** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| Ymgymryd â galwad/cyswllt y diwrnod cyntaf | | |
| Ceisio cysylltu dros y ffôn gan ddefnyddio'r holl rifau argyfwng | | |
| Ysgrifennu at y cyfeiriad olaf y gwyddys amdano a chysylltiadau argyfwng os ydynt yn hysbys. | | |
| Siarad ag asiantaethau priodol h.y. Gyrfa Cymru, gweithwyr ieuenctid, nyrs yr ysgol | | |
| Gwirio gyda'r gymuned ysgol ehangach e.e. staff, disgyblion eraill, gofalwyr, ffrindiau ac unrhyw berthynas sy'n hysbys | | |
| Os bydd brodyr a chwiorydd yn mynychu ysgolion gwahanol, cysylltwch er mwyn rhannu gwybodaeth | | |
| Gwneud ymweliad gartref | | |
| Unrhyw gysylltiad/gwybodaeth berthnasol | | |
| Manylion Atgyfeirio | | |
| Y dyddiad yr atgyfeiriwyd at y Gwasanaeth Lles Addysg | | |
| Enw'r Ysgol | | |
| Enw'r Swyddog Presenoldeb | | |
| Rhif Cyswllt | | |

***NB*** **Peidiwch â thynnu'r plentyn/person ifanc o'r gofrestr tan bod y Gwasanaeth Lles Addysg wedi gorffen eu hymchwiliadau a derbyn cadarnhad**

**Atodiad 2**

Fy Nghyf:

Dyddiad:

___________________________________

___________________________________

___________________________________

___________________________________

Annwyl Syr/Madam

**SYMUDIAD PLANT**

Enw:...............................................................................................................Dyddiad geni......................

Cyfeiriad Blaenorol:...................................................................................................................................

Ysgol Flaenorol...........................................................................................................................................

Cefais wybod bod y plentyn/plant a enwir uchod wedi symud i'ch Awurdod. Rhoddir manylion am y wybodaeth a roddwyd i mi isod:

Cyfeiriad Cartref y Plentyn:.....................................................................................................................

Enw'r ysgol:_____________________________

Dyddiad Derbyn:.........................................................................................................................................

A fyddech cystal â gwneud ymholiadau ynglŷn ag a yw'r wybodaeth hon yn gywir a dychwelyd y llythyr hwn i mi cyn gynted ag y bo modd.

Sylwadau:...................................................................................................................................................

………………………………………………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………………………………………………

Yn gywir

**Swyddog Presenoldeb Ysgolion**

**YMATEBWCH I:**

**Atodiad 3**

| | |
|---|---|
| **FFURFLEN GADAEL YSGOL I RIENI**<br>Os yw eich plentyn yn gadael, a wnewch chi lenwi'r ffurflen mor llawn â phosibl hyd yn oed os nad ydych yn gwybod yr holl fanylion eto | ➢<br>Logo'r Ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | **Dyddiad geni:** | **Dosbarth:** |
| Bydd fy mhlentyn yn gadael yr ysgol ar: (dyddiad) | | | |
| Oherwydd ein bod: (ticiwch) | a. | Symud Tŷ | |
| | b. | Dychwelyd i'r wlad wreiddiol/ yn ymfudo | |
| | c. | Arall - rhowch fanylion | |
| Cyfeiriad newydd os yw'n hysbys: | | | |
| Ysgol newydd os yw'n hysbys: | | | |
| Os nad yn wybyddus eto, y dref neu o leiaf y wlad rydych yn symud iddi | | | |
| A fyddwch yn cadw'r un rhifau ffôn symudol? Byddwn ☐ Na fyddwn ☐<br>Cadarnhewch eich rhifau neu restrwch y rhifau newydd:<br>*Ffôn symudol y Fam.............................................................* *Ffôn symudol y Tad.............................................................* | | | |
| Os yw'n bosibl, rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn ffrind neu berthynas yn y DU nad yw'n symud ac y byddwch yn cadw mewn cysylltiad ag ef. *Byddwn ond yn cysylltu â nhw os bydd angen gwybodaeth am ysgol newydd eich plentyn ac rydym yn methu cysylltu â chi Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd hyn yn angenrheidiol oherwydd y bydd yr ysgolion newydd yn cysylltu â ni i drosglwyddo manylion eich plentyn.*<br>*Enw:*<br>*Cyfeiriad:*<br>*Rhif Ffôn* | | | |
| Enw(au) Llawn y Rhiant(Rhieni)/Gofalwr/Gofalwyr. Printiwch yr enwau a llofnodwch<br><br>Mam.........................................................................................................<br>Tad............................................................................................................<br>Arall (rhowch y berthynas)......................................................... | | | |
| **Wedi atodi i'r ffurflen hon mae slip cyfarch yr ysgol.**<br>A allwch ei roi i'ch ysgol newydd a gofyn iddynt gysylltu â ni. | | | |
| At ddefnydd. Dyddiad y dychwelwyd: | | | Dyddiad dychwelwyd at GLlA: |

**Disgwylir i'r ysgol drosglwyddo gwybodaeth cyn gynted ag y bo bodd i ysgol newydd eich plentyn Mae gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol i geisio dod o hyd i'ch plentyn os bydd e neu hi yn rhoi peidio a mynychu ac nad ydym ni yn gwybod manylion yr ysgol newydd neu ddarpariaeth addysgol arall. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu os nad ydych wedi rhoi'r wybodaeth i ni a'n bod ni'n methu cysylltu â chi. Trwy lenwi'r ffurflen a'n**

**galluogi i gadw mewn cysylltiad â chi, rydych yn sicrhau nad oes angen i ni gyfeirio at asiantaethau eraill a bod eu hamser ddim yn cael ei wastraffu, ac ni chysylltir â chi yn ddiangen.**

**GWASANAETH ADDYSG CYNGOR CAERDYDD**

**HYSBYSIAD O DDISGYBLION A DYNNIR ALLAN O'R YSGOL I GAEL EU HADDYSGU GARTREF**

**O dan y Rheoliadau Cofrestru Disgyblion Addysg, 1995, mae gofyn i rieni roi gwybod i ysgolion, yn ysgrifenedig, eu bod yn addysg eu plant gartref. Yn syth ar ôl i ysgol dderbyn llythyr gan y rhiant, mae'n rhaid i enw'r plentyn gael e ddileu o'r gofrestr derbyniadau. Mae'n rhaid i'r ysgol anfon ffurflen i'r Cyngor o fewn 10 diwrnod ysgol wedi'r dileu.**

**Enw'r Disgybl:** ____________________________________________

**Dyddiad geni:** ____________________________________________

**Cyfeiriad:** ____________________________________________

____________________________________________

______________________**Cod Post:** ______________________

**Ydy'r disgybl yn destun Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig?**
**(Ticiwch y blwch os yw'n berthnasol)** ☐

**A gafodd y plentyn ei allgáu'n barhaol?**
**(Ticiwch y blwch os yw'n berthnasol)** ☐

**Rhowch fanylion o drafodaethau gyda'r rhieni cyn hysbysu am y penderfyniad i addysgu gartref.**

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

**Rhowch wybod am ymglymiad y Gwasanaeth Lles Addysg**

| |
|---|
| |
| |
| |
| |

**Cadarnhewch y dyddiad y tynnwyd y disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol**

____________________________________________

**Atodwch gopi o'r llythyr gan y rhieni yn eich hysbysu o'r penderfyniad i addysgu gartref.**

**LLOFNOD:** ______________________(Pennaeth): **DYDDIAD**: ____________

DYCHWELWCH AT: Prif Swyddog Addysg, Gwasanaeth Addysg, Gwasanaethau Disgyblion a Myfyrwyr (Derbyniadau Disgyblion), Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW (Ffôn: (029) 20 872909

## **Rhestr o Ddogfennau Ategol**

Amgaeir rhestr o ddogfennau atodol a fydd yn eich helpu i gwblhau polisïau Amddiffyn Plant a Diogelu:-

**Dogfennau Llywodraeth Cymru:-**

- Cadw dysgwyr yn ddiogel
  http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf
  Keeping learners safe
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004
  https://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1207cy.pdf?lang=cy
- Safeguarding Children: Working Together Under the Children's Act 2004
  http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1207en.pdf?lang=en

- Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol
  http://gov.wales/docs/dhss/publications/policy/130122guidancecy.pdf
  Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation
  http://gov.wales/docs/dhss/publications/policy/110107guidanceen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160728-anti-bullying-overview-en.pdf
- Respecting Others: Anti-bullying overview
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160728-anti-bullying-overview-en.pdf

- Gwrthsafiad a pharch – datblygu cydlyniant cymunedol
  Pecyn hunanasesu 2016
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160112-respect-and-resilience-self-assessment-tool-en.pdf
- Respect and resilience – developing community cohesion
  Self assessment tool 2016
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160112-respect-and-resilience-self-assessment-tool-en.pdf

- Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021
  http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf
- National Strategy on Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence 2016 -2021
  http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf

- All Wales Protocol: Female Genital Mutilation (FGM) 2011 (Saesneg yn unig) http://www.sewsc.org.uk/fileadmin/user_upload/FGM_All_Wales_Review_June_2011_-_pdf.pdf

- Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol. Canllawiau i ysgolion http://gov.wales/docs/dcells/publications/101213schoolopeningcy.pdf
- Opening schools in extreme bad weather. Guidance for schools. http://gov.wales/docs/dcells/publications/101213schoolopeningen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Accident/disease recording and reporting guidance for contracted provision. (Saesneg yn unig) http://gov.wales/docs/dcells/publications/150610-recording-and-reporting-guidance-en.pdf

- Health and safety code of practice for contracted provision. Department for Education and Skills (Saesneg yn unig) http://gov.wales/docs/dcells/publications/121106codeofpracticeen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Cynnwys a chynorthwyo disgyblion http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-en.pdf
- Inclusion and pupil support http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-en.pdf

- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), Taflen ffeithiau 2 http://gov.wales/docs/dcells/publications/161212-aln-factsheet-2-cy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill, Factsheet 2 http://gov.wales/docs/dcells/publications/161212-aln-factsheet-2-en.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd http://gov.wales/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf
- Guidance for penalty notices for regular non-attendance at school http://gov.wales/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf

- Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau http://gov.wales/docs/dcells/publications/130315safe-effective-en.pdf
- Safe and effective intervention – use of reasonable force and searching for weapons. http://gov.wales/docs/dcells/publications/130315safe-effective-en.pdf

- Rheoli effeithiol ar symud. Cychwyn newydd I blant a phobl ifanc yn yr ysgol. http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectivecy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- Effective managed moves. A fresh start for children and young people.

http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectiveen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/010415-exclusion-from-schools-and-pupil-referral-units-en.pdf
- Exclusion from schools and pupil referral units
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/010415-exclusion-from-schools-and-pupil-referral-units-en.pdf

- Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/121121frameworkcy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- All Wales attendance framework
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/121121frameworken.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Seicolegwyr addysg yng Nghymru
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/161221-educational-psychologists-wales-guidance-en.pdf
- Educational Psychologists in Wales
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/161221-educational-psychologists-wales-guidance-en.pdf

- Addysg ddewisol yn y cartref. Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-ehe-guidance-en.pdf
- Elective home education. Non-statutory guidance for local authorities
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-ehe-guidance-en.pdf

- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-en.pdf
- Special Educational Needs Code of Practice for Wales
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-en.pdf

- Strategaeth – Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru (fersiwn darllen syml)
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/151218-easy-read-lac-strategy-en.pdf
- Strategy – Raising the ambitions and educational attainment of children who are looked after in Wales (easy read version)
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/151218-easy-read-lac-strategy-en.pdf

- Young Carers Speak Out! Adroddiad terfynol (Adroddiad Rhaeadru)
  http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Social%20Care/Looking%20after%20Someone/Final-Young-Carers-Survey-Report-by-CASCADE.pdf

- Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/121002complaintsschoolscy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- Complaints procedure for school governing bodies in Wales
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/121002complaintsschoolsen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol. Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/130227disciplinaryanddismissalcy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- Disciplinary and dismissal procedures for school staff. Revised guidance for governing bodies.
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/130227disciplinaryanddismissalen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
  http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140410-safeguarding-children-in-education-en.pdf
- Safeguarding children in education: handling allegations of abuse against teachers and other staff
  http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140410-safeguarding-children-in-education-en.pdf

- Healthy Eating in Schools (Nutritional Standards and Requirements) (Wales) Regulations (Saesneg yn unig)
  https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?skip=1&lang=cy

- Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/150512-free-breakfast-leaflet-cy.pdf
- Free Breakfast in Primary Schools
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/150512-free-breakfast-leaflet-en.pdf

- Pecyn Gweithgareddau Cynghorau Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ddisgyblion a Staff
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/100209activitypackcy.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6
- Welsh Government School Council Activity Pack for Pupils and Staff
  http://gov.wales/docs/dcells/publications/100209activitypacken.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Canllawiau ar gyfer addysg camddefnyddio sylweddau http://gov.wales/docs/dcells/publications/130703-substance-misuse-guide-cy.pdf
- Guidence for substance misuse education http://gov.wales/docs/dcells/publications/130703-substance-misuse-en.pdf

- Common Transfer System (CTS) and s2s. Nodiadau defnyddwyr i ysgolion. (Saesneg yn unig) http://gov.wales/docs/dcells/publications/101220usernotesen.pdfttps://www.youtube.com/watch?v=d9J2g7KuYk8&index=6

- Y cod derbyn i ysgolion http://gov.wales/docs/dcells/publications/130715-admin-codes-en.pdf
- School admissions code http://gov.wales/docs/dcells/publications/130715-admin-codes-en.pdf

- Y cod apeliadau derbyn i ysgolion http://gov.wales/docs/dcells/publications/131219-school-admission-appeals-code-cy.pdf
- School admissions appeal code http://gov.wales/docs/dcells/publications/131219-school-admission-appeals-code-en.pdf

Dogfennau Llywodraeth Cymru:-

- HM Government: *Prevent* for England and Wales. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf

- Mandatory Reporting of Female Genital Information – procedural information
- https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/573782/FGM_Mandatory_Reporting_-_procedural_information_nov16_FINAL.pdf

- Multi-agency statutory guidance on female genital mutilation April 2016 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/512906/Multi_Agency_Statutory_Guidance_on_FGM__-_FINAL.pdf

Dogfennau Cyngor Caerdydd:

- Crynodeb o Blant sy'n Colli Addysg
- Polisi Ymwelwyr a Siaradwyr Allanol
- Defnyddio Grym Rhesymol
- Defnyddio Delweddau Disgyblion – Arweiniad Arfer Gorau i Ysgolion
- Arweiniad ar gyfer Arfer Gwaith Diogelach gyda Phlant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed
  **(Dogfen CIS 5.HR.026)**
- Gweithdrefn Disgyblu Staff Ysgol
  **(Dogfen CIS 1.CM.035-Sch)**
- Gweithdrefn Disgyblu Staff Ysgol
  **(Dogfen CIS 1.CM.035-Sch-W)**
- Protocol TGCh i Ysgolion
  **(Dogfen CIS 9.SC.SLL.010)**
- ICT Protocol For Schools Cymraeg
  **(Dogfen CIS 9.SC.SLL.010.WEL)**
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
  **(Dogfen CIS 1.HR.202)**
- Polisi Cyflogaeth Y Gwasanaeth Datgelu A Gwahardd (GDG)
  **(Dogfen CIS 1.CM.202-W)**

Dogfennau Llywodraethwyr Cymru:-

- Ffeil Ffaith Llywodraethwyr Cymru Rhif 01/04
  http://www.governorswales.org.uk/search_cy.html?q=fFEIL%20FFAITH

- Governors Wales Fact file NO 01/04
  http://www.governorswales.org.uk/media/search_en.html?q=FACTFILE

Dogfennau Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg:-

- Cardiff Child Sexual Exploitation Prevention Strategy (Saesneg yn Unig)

Dogfennau'r Gymdeithas Gwybodaeth a Chofnodion:-

- Information Management Toolkit for Schools
  http://www.irms.org.uk/images/resources/2016_IRMS_Toolkit%20for%20Schools_v5_Master.pdf